# Ffrwythau

Ffrwythau
Ffrwythau
Fy hoff bethau
I fwyta pan mae 'mol i'n wag!

Dwi'n dwlu bwyta mefus
Sy'n flasus ac yn felys
Ac eirin, llus a mango
Mor grwn â pheli bownsio.

Pan mae'n dywydd neis,
Dwi'n hoffi bwyta sleis
O felon dŵr mawr neis - Iym!

Ffrwythau
Ffrwythau
Fy hoff bethau
I fwyta pan mae 'mol i'n wag!

Dwi methu'n lân ag aros
I fwyta llwyth o geirios
Ac os dwi angen egni
Dwi'n bwyta ffrwythau ciwi.

Pan mae'n dywydd neis,
Dwi'n hoffi bwyta sleis
O oren blasus neis - iym.

Ffrwythau
Ffrwythau
Fy hoff bethau
I fwyta pan mae 'mol i'n wag!

**Mae'r gân yn cyflwyno / *The song introduces:***

**Geirfa / Vocabulary: ffrwythau / fruit**

| | |
|---|---|
| Ffrwythau | (Fruit) |
| mefus | (strawberry) |
| eirin | (plum) |
| llus | (blueberries) |
| mango | (mango) |
| melon dŵr | (watermelon) |
| ceirios | (cherries) |
| ciwi | (kiwi fruit) |
| oren | (orange) |
| ffrwyth/ffrwythau | (fruit) |

**Gerifa gyffredinol / General vocabulary:**

| | |
|---|---|
| bol (mol) | (belly) |
| gwag (wag) | (empty) |
| bwyta | (eat / eating) |
| blasus (flasus) | (tasty) |
| melys (felys) | (sweet) |
| crwn | (round) |
| tywydd | (weather) |
| egni | (energy) |
| pethau (bethau) | (things) |
| peli (pheli) | (balls) |
| iym! | (yum!) |
| llwyth | (loads) |

**Patrymau Iaith / Language Patterns:**

| | |
|---|---|
| Fy hoff … | (My favourite …) |
| Dwi'n hoffi … | (I like …) |
| Pan mae'n … | (When it's …) |
| Dwi'n dwlu … | (I'm mad about…) |
| Dwi methu'n lân ag aros | (I can't wait) |

© 2025 S4C